



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol



CYMDEITHAS CYFIEITHWYR CYMRU

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

1. Y sefydliadau

1.1 Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r corff proffesiynol cenedlaethol ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg/Saesneg, p'un a ydynt yn gyfieithwyr testun neu'n gyfieithwyr ar y pryd. Ei nod yw sicrhau safonau proffesiynol ym maes cyfieithu Cymraeg/Saesneg a sicrhau hefyd fod y proffesiwn/diwydiant yn datblygu'n effeithiol fel rhan o'r broses o hyrwyddo'r Gymraeg a dwyieithrwydd. Rhaid llwyddo yn nhrefn arholi'r Gymdeithas i ennill aelodaeth unigol ohoni ar lefelau Cyflawn a Sylfaenol (Testun) a Chyfieithu ar y Pryd. Mae gan y Gymdeithas hefyd aelodau Corfforaethol ac mae'n cydnabod Sefydliadau Cyswllt a Myfyrwyr Cyswllt.

Ar sail cynllun busnes 3-blynedd hyd at 31 Mawrth 2016, mae Comisiynydd y Gymraeg yn ariannu gweithgareddau rheoleiddio'r Gymdeithas, sy'n cynnwys: cadw cofrestr o gyfieithwyr cymwys proffesiynol sy'n aelodau o'r Gymdeithas, cyfieithwyr y gofynnir iddynt ymddwyn yn unol â Chod Ymddygiad Proffesiynol y mae trefn gwyno ynghlwm â hi; cynnal a datblygu aelodaeth y Gymdeithas trwy drefnu arholiadau aelodaeth a rhaglen o hyfforddiant; sefydlu cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus; a chydweithio â sefydliadau addysgiadol.

1.2 Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Sefydlwyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011. Yn ôl ei gyfansoddiad ac Erthyglau Cymdeithasu, amcanion y Coleg yw:

“... hybu dysg a gwybodaeth trwy hyrwyddo, cynnal, datblygu a goruchwylio darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch yng Nghymru, gan weithio gyda sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a thrwyddynt.”

Prif amcanion y Coleg yw:

- Yn unol â'i gyfansoddiad, hybu dysg a gwybodaeth trwy hyrwyddo, cynnal, datblygu a goruchwylio darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch yng Nghymru, gan weithio gyda sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a thrwyddynt.
- Fel corff a lywodraethir yn ganolog, sydd â gorolwg dros yr holl ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, darparu undod o ran pwrpas, cydlynid ac arweinyddiaeth trwy strategaeth genedlaethol.
- Creu trefniadaeth gadarn a pharhaol, yn genedlaethol, ar gyfer sicrhau statws llawn i'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer addysg ac ymchwil o fewn y prifysgolion.
- Helaethu'r ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr, gan ysgogi ac ymateb i'r galw gan fyfyrwyr, a thrwy hynny gynyddu'r niferoedd y myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cydweithio gyda chyrrff cenedlaethol eraill er mwyn cyfrannu at fywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru.

Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

2. Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw sefydlu egwyddorion cydweithio rhwng Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
3. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cydnabod cenadaethau ategol y ddau sefydliad, eu diddordebau cyffredin mewn hyrwyddo'r Gymraeg a dwyieithrwydd a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn enwedig ym myd addysg.

Meysydd cydweithio

4. Yn academiaidd bydd y ddau sefydliad yn cydweithio i:
 - 4.1 Hyrwyddo Astudiaethau Cyfieithu ar bob lefel yn y sector addysg uwch.
 - 4.2 Sefydlu fframwaith cenedlaethol a fydd yn galluogi'r sector addysg uwch i ymateb yn bwrpasol i anghenion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus y proffesiwn/diwydiant cyfieithu Cymraeg/Saesneg.
 - 4.3 Sicrhau fod y ddarpariaeth a'r gweithgareddau a gyllidir gan y Coleg ym maes Astudiaethau Cyfieithu yn ymateb yn uniongyrchol i anghenion y proffesiwn/diwydiant cyfieithu Cymraeg/Saesneg, gan gynnwys darparu addysg a hyfforddiant i fyfyrwyr, cyfieithwyr a darpar-gyfieithwyr.
 - 4.4 Hybu a hyrwyddo ysgolheictod ac ymchwil ym maes y Gymraeg, gan gynnwys gramadeg, geiriadura, terminoleg.
5. Yn gyffredinol, bydd y ddau sefydliad yn adeiladu ar eu llwyddiannau unigol ac yn cydweithio, lle bo'n briodol, i:
 - 5.1 Hyrwyddo a chefnogi cenadaethau ei gilydd.
 - 5.2 Cyfrannu at rwydweithiau proffesiynol a digwyddiadau allanol ei gilydd.
 - 5.3 Rhannu ymatebion drafft i ymgynghoriadau cyhoeddus sy'n berthnasol i waith y ddau sefydliad.
 - 5.4 Gwneud cynigion ar y cyd i sefydliadau perthnasol lle rhennir yr un safbwynt ar fater perthnasol sy'n effeithio ar y ddau sefydliad.
6. Ar faterion cyfieithu, cytunir ar y materion hyn:
 - 6.1 Bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ymrwymo i ddefnyddio cyfieithwyr sy'n aelodau Cyflawn, CAP neu Gorfforaethol o'r Gymdeithas ar gyfer ei waith cyfieithu a chyfieithu ar y pryd.
 - 6.2 Os bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn penderfynu cyflogi ei gyfieithwyr ei hun, bydd yn ymrwymo i gael ei gydnabod fel Sefydliad Cyswllt gan y Gymdeithas mewn amser rhesymol yn dibynnu ar brofiad a thelerau gwaith y cyfieithwyr a gyflogir ganddo.
 - 6.3 Gall y Coleg Cymraeg Cenedlaethol elwa o gyngor gan y Gymdeithas ar faterion yn ymwneud â chyfieithu.
 - 6.4 Caiff staff y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ostyngiad ar gyfer cyrsiau, digwyddiadau ac arholiadau'r Gymdeithas.
7. Bydd y ddau sefydliad yn ystyried a thrafod enwebu cynrychiolwyr i fod yn aelodau o bwyllgorau, grwpiau a gweithgorau'r ddau sefydliad, lle bo'n briodol.
8. Bydd pob datganiad, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, a wneir mewn perthynas â bodolaeth trafodaethau rhwng y ddau sefydliad bob amser yn amodol ar ganiatâd a chytundeb ysgrifenedig y ddau sefydliad.

Adolygu'r cydweithio

9. Bydd y ddau sefydliad yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i adolygu effeithiolrwydd y cydweithio a'i effeithlonrwydd o ran darparu allbynnau o werth i'r ddau sefydliad fel ei gilydd.

Cyfnod a therfynu

10. Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn dechrau ar 8 Awst 2014 a disgwylir y bydd yn weithredol hyd at 31 Mawrth 2016 yn y lle cyntaf. Caiff y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ei adolygu cyn diwedd y cyfnod hwn a chaiff ei ymestyn os bydd y ddau sefydliad yn gytûn.
11. Gall y naill sefydliad neu'r llall derfynu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ar unrhyw adeg trwy roi rhybudd ysgrifenedig o ddim llai na 28 diwrnod i'r sefydliad arall.

Natur y Cytundeb

12. Bydd y ddau sefydliad yn atebol am eu costau a'u treuliau eu hunain mewn perthynas ag archwilio cyfleoedd a welir yn hwn.

Cyfrinachedd

13. Yn ystod cyfnod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ac ar unrhyw adeg wedi hynny, mae'r ddau sefydliad yn cytuno i drin unrhyw wybodaeth gyfrinachol yn gwbl gyfrinachol ac i beidio â'i datgelu i'r un trydydd parti ac eithrio gweithwyr, gweision neu gynrychiolwyr penodol y naill neu'r llall ar y sail bod arnynt "angen gwybod". Bydd pob sefydliad sy'n rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cymryd pob rhagofal rhesymol i sicrhau bod ei weithwyr, ei weision a'i gynrychiolwyr yn ymwybodol o'r rhwymedigaethau cyfrinachedd a nodwyd uchod ac yn cadw atynt.
14. Mae'r ddau sefydliad yn cytuno y dylai pob trafodaeth fod yn gwbl gyfrinachol.

Llofnodwyd gan

Llofnodwyd gan

Geraint Wyn Parry
Prif Weithredwr

Ioan Matthews
Prif Weithredwr

ar ran

ar ran

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol